Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cynhadledd y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy’n Gadael Gofal yng Nghymru

## Pecyn uchafbwyntiau'r digwyddiad



# Cynnwys

*(Cliciwch ar y dolenni i neidio at yr adran)*


**Crynodeb o'r digwyddiad**

**Agenda**

**Croeso**

- Croeso'r cadeirydd
- Negeseuon fideo gan Weinidogion

**Cyflwyniad**

- Prif siaradwr: Yr Athro Syr Michael Marmot
- Cwestiynau i'r Athro Syr Michael Marmot

**Y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, a gwerthusiad**

- Y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol
- Gwerthusiad o'r cynllun peilot

**Mewnwelediadau o ymchwil ar gynlluniau incwm sylfaenol ac ymyriadau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal**

- Dr Miriam Laker-Oketta, Give Directly
- Hannah Webster, Royal Society of Arts
- Dr Eleanor Ott, Centre for Evidence and Implementation
- Cwestiynau i'r siaradwyr

**Trafodaeth**

**Myfyrdodau**

- Myfyrdodau: Yr Athro Guy Standing
- Cwestiynau i'r Athro Guy Standing

**Adnoddau**

**Bywgraffiadau siaradwyr**

# Crynodeb o'r digwyddiad

Digwyddiad hanner diwrnod ar-lein a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 oedd y **Gynhadledd Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru (BICLWP)**, a gynullwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Diben y gynhadledd oedd sicrhau, ochr yn ochr â'i gwerthusiad o'r cynllun peilot, **bod Llywodraeth Cymru yn tynnu ar y dystiolaeth ymchwil orau sydd ar gael am y gwaith o weithredu cynlluniau incwm sylfaenol a chymorth ehangach ar gyfer pobl sy'n gadael gofal a'u heffaith.**

Mynychodd cyfanswm o 84 o bobl y digwyddiad o ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys prifysgolion, sefydliadau'r trydydd sector, a llywodraethau cenedlaethol a lleol. Ymunodd mynychwyr o Gymru a ledled y DU, yn ogystal ag o fannau eraill yn Ewrop, a Chanada.

**Amcanion y digwyddiad**

I ddarparu cyfleoedd i drafod y canlynol:

- Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru a'r gwerthusiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gomisiynu;
- Gwersi allweddol o ymchwil arall ar gynlluniau incwm sylfaenol;
- Ffyrdd o gefnogi neu gryfhau gwerthusiad Llywodraeth Cymru;
- Polisïau ychwanegol a allai ategu'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol a chynyddu ei effaith.

# Agenda

Cliciwch ar enw pob siaradwr i ddarllen eu bywgraffiad

**Croeso**

Cadeirydd: Yr Athro Steve Martin (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru)

Negeseuon fideo oddi wrth Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cyflwyniad**

Prif Siaradwr: Yr Athro Syr Michael Marmot (University College London)

**Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru a gwerthusiad**

Adam Jones a Launa Anderson (Llywodraeth Cymru)

Yr Athro Sally Holland a David Westlake (CASCADE, Prifysgol Caerdydd)

**Mewnwelediadau o ymchwil ar gynlluniau incwm sylfaenol ac ymyriadau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal**

Dr Miriam Laker-Oketta (Give Directly)

Hannah Webster (Royal Society of Arts)

Dr Eleanor Ott (Centre for Evidence and Implementation)

**Trafodaeth**

Sut gall ymchwil a'r gymuned ymchwil gefnogi llwyddiant y cynllun peilot a'i werthusiad orau?

**Myfyrdodau**

Yr Athro Guy Standing (SOAS, Prifysgol Llundain)

**Crynodeb, negeseuon allweddol, a'r camau nesaf**

Cadeirydd: Yr Athro Steve Martin (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru)

**Diwedd y Gynhadledd**

# Croeso

Yr Athro Steve Martin, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Croeso'r cadeirydd

Agorodd yr Athro Steve Martin y gynhadledd a diolchodd i bawb am ymuno. **Tynnodd sylw at y ffaith bod tlodi yn fater parhaus yng Nghymru**, ac yn un yr oedd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cwblhau cryn dipyn o waith arno yn ddiweddar.

**Mae pobl sy'n gadael gofal yn un o'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi tlodi**, sy'n golygu bod cynlluniau sy'n ceisio gwella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, fel y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, yn hynod o bwysig. **Mae'r cynllun peilot ar hyn o bryd yn treialu cynllun incwm sylfaenol gyda thua 500 o bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.**

Yn cynnwys cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, y gwerthuswyr a benodwyd, ac academyddion ac ymchwilwyr blaenllaw, mae'r digwyddiad yn gyfle i rannu gwybodaeth am y cynllun peilot a chaniatáu ar gyfer ystyriaeth a thrafodaeth.

# Negeseuon fideo gan Weinidogion

*(Cliciwch ar y darlun i wylio'r cyflwyniad ar YouTube)*



# Cyflwyniad

Yr Athro Syr Michael Marmot, Coleg Prifysgol Llundain

# Recordiad: Yr Athro Syr Michael Marmot

*(Cliciwch ar y darlun i wylio'r cyflwyniad ar YouTube)*



# Yr Athro Syr Michael Marmot: Sefydlu'r peilot

Roedd prif anerchiad yr Athro Marmot yn gosod y cynllun peilot yng nghyd-destun cyfiawnder cymdeithasol a thegwch iechyd.

Mae incwm a chanlyniadau iechyd wedi'u cydblethu'n fawr, fel yr amlygir gan y gydberthynas rhwng incwm a disgwyliad oes. Bu tair her ddiweddar i anghydraddoldebau iechyd yn y DU:

- Mesurau cyni
- COVID-19
- Yr argyfwng costau byw

# Yr Athro Syr Michael Marmot: tueddiadau diweddar

Tynnodd yr Athro Marmot sylw at sawl tueddiad sy'n ymwneud â phobl sy'n gadael gofal, a'r rhai ar incwm isel yn fwy cyffredinol, yng nghyd-destun yr heriau diweddar hyn.

- Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n fwy tebygol i blant sy'n cael eu magu mewn gofal, yn dod yn fwy cyffredin gyda mwy o amddifadedd.
- Mae cyflyrau iechyd meddwl yn fwy cyffredin ymhlith y rhai sydd â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn fwy tebygol ar gyfer y rheini sy'n cael eu magu mewn gofal.
- Mae bod ar ei hôl hi gyda thaliadau yn llawer mwy tebygol ar gyfer y rhai â chyflwr iechyd meddwl.
- Mae'r rhai mewn gofal nad yw'n ofal rhiant yn sylweddol llai tebygol o fod mewn gwaith, ac yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith yn eu 20au, 30au a 40au, gyda hyn yn arbennig o wir am y rhai mewn gofal preswyl.
- Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn ei chael yn anodd ymdopi'n ariannol o gymharu â phobl ifanc yn y boblogaeth gyffredinol.
- Datgelodd pandemig COVID-19 anghydraddoldebau mewn cymdeithas a'u chwyddo, o ran iechyd a dosbarthiad incwm.
- Yn ystod yr argyfwng costau byw diweddar, y rhai lleiaf cefnog sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan chwyddiant, gan fod ynni a bwyd, sydd wedi profi chwyddiant uchel, yn cyfrif am gyfran uwch o wariant y grŵp hwnnw.

# Yr Athro Syr Michael Marmot: anghydraddoldebau iechyd ac incwm

Mae incwm yn ymwneud â nifer o chwe egwyddor Marmot ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd a nodir yn Fair Society, Healthy Lives (The Marmot Review, 2010)

- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
- Galluogi pob plentyn, unigolyn ifanc ac oedolyn i wneud y mwyaf o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau
- Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
- Sicrhau safon byw iach i bawb
- Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy
- Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd

Gorffennodd yr Athro Marmot gan ddweud:

**“Nid incwm yw’r unig beth sy’n bwysig, ond mae’n sicr yn helpu.”**

# Cwestiynau i'r Athro Syr Michael Marmot

1. **A oes angen gwell gwybodaeth ystadegol arnom am ansicrwydd ac ansefydlogrwydd incwm? Ymddengys ei fod yn ffactor sy'n dwysáu'r anghydraddoldebau hyn?**

   Mae tystiolaeth bod ansicrwydd economaidd yn ddrwg i iechyd. Yn yr English Longitudinal Study Of Ageing, rhoddir pwyslais ar gyfoeth – gall cyfoeth ddarparu gwytnwch yng nghyd-destun ansicrwydd incwm, gan fod amrywiadau incwm yn llai pwysig gyda mwy o gyfoeth

2. **Bu twf aruthrol mewn dyled ddrud, gydag angen incwm ychwanegol ar y rhai ar y gwaelod i gael dau ben llinyn ynghyd. Beth allwn ni ei wneud fel ymchwilwyr i dynnu sylw at yr argyfwng hwn?**

   Mae llunwyr polisi yn rhoi pwyslais ar atebion tymor byr ar gyfer argyfyngau uniongyrchol; mae angen inni ymdrin â'r problemau hirdymor yn awr a pheidio â'u gohirio. Mae arnom angen atebion brys i broblemau brys, ond mae angen inni hefyd fynd i'r afael â'r materion hirdymor. Mae'n eithaf posibl sicrhau bod credyd ar gael i bobl am bris fforddiadwy yn gyflym, ond dylai fod yn rhan o ateb tymor hwy.

# Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru a gwerthusiad

Adam Jones a Launa Anderson, Llywodraeth Cymru
Yr Athro Sally Holland a David Westlake, CASCADE, Prifysgol Caerdydd

# Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru

**Darparodd swyddogion Llywodraeth Cymru gefndir a chyd-destun i'r peilot, gan edrych ar ei ddyluniad a'i weithrediad.**

Mae'r cynllun peilot ar agor i bobl sy'n gadael gofal ledled Cymru sy'n troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023. **Y swm a delir yw £1,600 y mis, cyn treth, am 24 mis yn dilyn eu pen-blwydd yn 18 oed (swm net o £1,280).** Darperir yr incwm sylfaenol yn ogystal â chymorth presennol Llywodraeth Cymru a ddarperir i bobl sy'n gadael gofal, a darperir cymorth i reoli cyllid hefyd. **Mae cymryd rhan yn y peilot a'r gwerthusiad yn wirfoddol.**

Mae pedwar amod cynllunio polisi allweddol ar gyfer y cynllun peilot:

- Peidio â gwneud unrhyw gyfranogwr yn waeth ei fyd
- Dim amodau ar yr incwm a dderbynnir
- Yr un taliad yn cael ei roi i bawb
- Dim newid y taliad hanner ffordd drwy'r peilot

Mae swyddogion wedi gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal a'r sector gofal cymdeithasol plant i ddatblygu a dylunio'r cynllun peilot.

# Gwerthusiad o'r cynllun peilot

**CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol Plant), canolfan ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd, yw'r gwerthuswyr penodedig.** Cyflwynwyd y tîm gwerthuso, sy'n cynnwys dau brif ymchwilydd o CASCADE, ynghyd â nifer o gyd-ymchwilwyr ac arbenigwyr pwnc o bob rhan o'r DU.

Mae pedair egwyddor allweddol ar gyfer y gwerthusiad:

- Cyflogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- Profi a datblygu theori ar sut mae'r ymyriad yn gweithio
- Defnyddio cyfuniad o ddulliau ac agweddau i greu darlun cynhwysfawr a all ateb amrywiaeth o gwestiynau am y cynllun peilot
- Gosod sylfeini ar gyfer effaith hirdymor

Mae gan y gwerthusiad bum **cwestiwn ymchwil** cysylltiedig:

1. Beth yw effaith y cynllun peilot ar y canlyniadau y mae'n bwriadu eu newid?
2. A yw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?
3. Sut brofiad yw'r cynllun peilot?
4. Sut mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?
5. Beth yw costeffeithiolrwydd y cynllun peilot?

# Dulliau gwerthuso

Mae'r cwestiwn ymchwil cyntaf yn ymwneud â ph'un a yw'r peilot yn cael effaith ar y canlyniadau a fwriedir. Mae amrywiaeth eang o ganlyniadau yn cael eu mesur, a bydd data'n cael ei gasglu trwy ddata arolygon, data gweinyddol, a gwerthusiad gweithredu a phrosesau. Mae dwy gymhariaeth lled-arbrofol yn yr arfaeth: un gyda charfan Seisnig gyfatebol, ac un gyda phobl sy'n gadael gofal o Gymru sy'n rhy hen neu'n rhy ifanc i fod yn gymwys.

| Canlyniadau o ddiddordeb | Y dulliau |
|---|---|
| Lles | Data arolygon a gwerthusiad gweithredu a phrosesau |
| Llythrennedd ariannol a diogelwch | Data arolygon a gwerthusiad gweithredu a phrosesau |
| Cydlyniant cymunedol ac ymgysylltu | Data arolygon a gwerthusiad gweithredu a phrosesau |
| Lleddfu effeithiau tlodi | Data arolygon a data gweinyddol |
| Gwirfoddoli a sgiliau bywyd | Data gweinyddol |
| Iechyd corfforol a meddyliol | Data arolygon |
| Mynediad i'r farchnad lafur / addysg / dysgu gydol oes | Data arolygon a data gweinyddol |

Bydd y cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â gweithredu, profiad, a'r berthynas â pholisi ehangach yn cael eu hasesu trwy werthusiad gweithredu a phrosesau, gan gynnwys dadansoddiad meintiol ac ansoddol. Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu datblygu ymhellach a'u dadgyfuno trwy gydgynhyrchu gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


@WCfPP

# Mewnwelediadau o ymchwil ar gynlluniau incwm sylfaenol ac ymyriadau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal

Dr Miriam Laker-Oketta, Give Directly
Hannah Webster, Royal Society of Arts
Dr Eleanor Ott, Centre for Evidence and Implementation (CEI)

# Recordiad: Dr Miriam Laker-Oketta

*(Cliciwch ar y darlun i wylio'r cyflwyniad ar YouTube)*




@WCfPP

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Dr Miriam Laker-Oketta: Pwyntiau allweddol

**Trafododd Dr Miriam Laker-Oketta nifer o brosiectau a gynhaliwyd gan GiveDirectly sy'n ymwneud â throsglwyddiadau arian parod. Mae GiveDirectly yn asiantaeth cymorth rhyngwladol sy'n rhoi trosglwyddiadau arian parod diamod i bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae wedi cyrraedd dros 1.5 miliwn o dderbynwyr mewn 14 o wledydd.**

Ar hyn o bryd, mae GiveDirectly yn arwain arbrawf 12 mlynedd yn astudio effeithiau incwm sylfaenol cyffredinol, i gynhyrchu tystiolaeth ar effaith incwm sylfaenol cyffredinol mewn gwledydd sy'n datblygu.

**Dysgu allweddol o'r prosiect hwn hyd yn hyn (yng nghyd-destun COVID-19):**

- Gwellodd trosglwyddiadau arian les ar fesurau, gan gynnwys newyn, salwch ac iselder, hyd yn oed o ystyried cyd-destun pandemig COVID-19.
- Roedd manteision iechyd cyhoeddus posibl hefyd, gan fod derbynwyr yn llai tebygol o ymweld ag ysbytai, a bod ganddynt lai o ryngweithio cymdeithasol anfasnachol.
- Arweiniodd y pandemig at golledion mewn incwm a gronnwyd trwy gychwyn mentrau newydd, ond dioddefodd derbynwyr gynnydd llai mewn newyn (o gymharu â'r rhai nad oeddent yn derbyn arian).
- Roedd y derbynwyr yn cronni arian i ennill buddion i'r gymuned (e.e. athro cyn-ysgol).
- Buddsoddodd y derbynwyr mewn ystod eang o asedau: buddsoddodd un mewn offerynnau cerdd a dechrau band.

**"Nid yw pawb eisiau gafr, nid yw pawb eisiau tŷ. Fi yw'r unig un sy'n gwybod beth sydd gwir ei angen arnaf."**

# Dr Miriam Laker-Oketta: Treialon eraill

## Sut mae ieuenctid trefol yn gwario trosglwyddiadau arian parod? (Kenya)


- Dau grŵp o gyfranogwyr, y ddau hefyd yn cael arian i brynu ffôn clyfar:
  - 3 rhandaliad
  - 24 o randaliadau
- Symudiad sylweddol a pharhaus i hunangyflogaeth
- Soniodd y cyfranogwyr am fwy o gynilion, llai o ddyledion, a’r gallu i dalu am well llety.
- Mae ffonau clyfar yn gwella cyfleoedd busnes ac yn cefnogi cynhwysiant digidol

## Meincnodi hyfforddiant sgiliau yn erbyn trosglwyddiadau arian parod (Rwanda)

- Cymharu rhaglen sgiliau ieuenctid ac entrepreneuriaeth â throsglwyddiadau arian parod, a chyfuniad o'r ddau.
- Gwellodd trosglwyddiad arian parod cyfwerth â chost yr un canlyniadau â'r hyfforddiant sgiliau, ac eraill.
- Gwellodd trosglwyddiadau arian bum canlyniad yn sylweddol fwy na’r hyfforddiant sgiliau, gan gynnwys y canlynol:
  - Incwm
  - Asedau cynhyrchiol
  - Lles

# Recordiad: Hannah Webster

*(Cliciwch ar y darlun i wylio'r cyflwyniad ar YouTube)*



# Hannah Webster: Ansicrwydd economaidd ieuenctid

**Trafododd Hannah Webster ganfyddiadau prosiectau RSA ynghylch diogelwch economaidd pobl ifanc yn y DU a'r potensial ar gyfer incwm sylfaenol cyffredinol.**

Hyd yn oed cyn yr argyfwng costau byw presennol, roedd tua hanner y bobl ifanc yn byw'n ansicr ("cael dau ben llinyn ynghyd a dim mwy", "yn ei chael yn anodd ymdopi") neu ag incwm cyfnewidiol. Dywedodd 79% o bobl ifanc sy'n derbyn Credyd Cynhwysol eu bod yn byw'n ansicr.

Mae pobl ifanc yn profi atomeiddio: toriad y rhwymedigaethau cymdeithasol a ddylai gefnogi pobl ifanc, gan eu gadael yn ynysig ac yn agored i niwed. Ystyrir bod y system nawdd cymdeithasol bresennol yn tanseilio diogelwch economaidd pobl ifanc, gydag ychydig o fecanweithiau i gefnogi'r cyfnod pontio i fyd oedolion, a gostyngiad systemig ym maint rhwydweithiau a strwythurau cymorth. Roedd pobl ifanc yn gweld bod peidio â chael digon o arian yn fethiant personol, yn hytrach na methiant y system, ac yn gwthio eu hunain i fodloni disgwyliadau cymdeithasol.

Mae amrywiaeth o ysgogwyr ariannol ar gyfer straen, gorbryder ac iselder:

- Cynllunio ariannol
- Yr anallu i gael swydd oherwydd diffyg profiad, a oedd yn ei dro yn eu hatal rhag cael profiad perthnasol, a phryderon ynghylch dod o hyd i waith yn y dyfodol
- Diffyg arian neu ragwelediad o ddiffyg arian
- Normau cymdeithasol sy'n ymwneud ag arian a statws, wedi'u mwyhau gan gynrychioliadau'r cyfryngau o incwm pobl ifanc
- Gwaith, prifysgol a'r cydbwysedd rhwng y ddau
- Hyder isel yn eu dealltwriaeth o faterion ariannol

# Hannh Webster: Iechyd meddwl ac incwm sylfaenol

Mae gwaith dadansoddi data yn awgrymu cydberthynas rhwng cwintel incwm pobl ifanc a chyffredinrwydd anhwylderau iselder clinigol yr adroddir amdanynt. Er bod ystod eang o ffactorau'n effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc, **gallai polisi sy'n ceisio gwella amgylchiadau economaidd pobl ifanc ddod â manteision ehangach i iechyd meddwl a lles.**

Wrth drafod incwm sylfaenol cyffredinol fel polisi a allai gynnig y buddion hyn, cododd pobl ifanc rai cwestiynau am effaith gymdeithasol incwm sylfaenol cyffredinol. Fodd bynnag, i raddau helaeth, gwnaethant nodi ystod o fuddion a allai ddeillio o incwm sylfaenol cyffredinol, gan gynnwys y canlynol:

**Mwy o ddiogelwch**
- Lleddfu straen

**Cydbwysedd gwaith/astudio/bywyd**
- Mwy o amser ar gyfer lles

**Gwella perthnasoedd**
- Cael gwared ar ddibyniaethau ariannol

**Mwy o gyfleoedd i ddysgu**
- Ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol

**Mwy o gyfleoedd i ddysgu**
- Boddhad personol a budd ariannol hirdymor

Amcangyfrifir y bydd incwm sylfaenol cyffredinol o tua £230 yr wythnos fesul oedolyn yn arbed neu'n gohirio dros 500,000 o achosion o bryder neu iselder ymhlith pobl ifanc 14–24 oed dros gyfnod o ddeng mlynedd. Amcangyfrifir o hyd y bydd cynllun o £63 yr wythnos fesul oedolyn yn arbed neu'n atal tua 200,000 o achosion.

# Recordiad : Dr Eleanor Ott

*(Cliciwch ar y darlun i wylio'r cyflwyniad ar YouTube)*



# Dr Eleanor Ott: Cefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal

**Cyflwynodd Dr Eleanor Ott dystiolaeth ar bolisïau, rhaglenni ac ymyriadau i wella canlyniadau i bobl ifanc sy'n pontio o fod mewn gofal. Darparodd Dr Ott hefyd fyfyrdodau ar gyfranogiad pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal mewn ymchwil.**

O archwilio effeithiolrwydd pedwar math gwahanol o ymyriadau ar gyfer pobl ifanc sy'n pontio o fod mewn gofal, canfuwyd bod rhaglenni byw'n annibynnol, gwasanaethau cymorth dwys, a gofal estynedig ond yn cael effeithiau **bach iawn** ar nifer o ganlyniadau. N**id oedd gan wasanaethau hyfforddi a chymorth cymheiriaid unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn meta-ddadansoddiadau.**

> **"Mae cwmpas a chryfder y dystiolaeth gyfredol yn annigonol i ddod i gasgliadau."**

Mae'n bwysig cydnabod cymhlethdod darparu gwasanaethau o'r fath, mewn cyd-destun sy'n aml yn cael ei danariannu, i boblogaeth sy'n amrywiol iawn ac sydd yn aml yn cyflwyno anghenion cymhleth. Er y gallai rhai ymagweddau (yn enwedig gofal estynedig a chymorth dwys) fod yn addawol, mae'n rhy gynnar i argymell y dulliau hyn yn gryf.

Ar gyfer ymchwil:

- Mae rôl i ymchwil wrth asesu effaith strategaethau gweithredu
- Mae'n bwysig deall cynhwysion ymyriadau: **beth sy'n gwneud y gwahaniaeth?**
- Mae angen mesurau canlyniadau mwy cyffredin mewn ymchwil sylfaenol i gronni gwybodaeth a deall yr hyn a wyddom

# Dr Eleanor Ott: Iechyd meddwl pobl sy'n gadael gofal

Gan adeiladu ar yr ymchwil hon, mae'r Ganolfan Arloesedd Addysg bellach yn cynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth sy'n edrych ar effaith ymyriadau ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ar eu hiechyd meddwl, a llenyddiaeth ar brofiadau pobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal o roi cymorth iechyd meddwl ar waith yn y DU.

Pe gallai pobl ifanc flaenoriaethu canfyddiadau o'r adolygiad:

| | | |
|---|---|---|
| **Pobl ifanc yn cael perchnogaeth a dewis dros eu gofal a chymorth iechyd meddwl** | **Gweithwyr proffesiynol yn cael gwell dealltwriaeth o brofiadau gofal** | **Mwy o addysg am iechyd meddwl ac opsiynau ar gyfer cymorth yn y boblogaeth gyffredinol** |

Mae cyfranogiad ieuenctid mewn ymchwil yn aml yn cael ei fodelu fel hierarchaeth, ond mae angen edrych arno mewn ffordd gyfannol gan fod cyfranogiad ieuenctid yn dibynnu ar gyfranogiad y prosiect penodol hwnnw.

Mae moeseg a pharch yn hynod o bwysig wrth gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal mewn ymchwil ac mae angen eu llywio'n ofalus:

**"Dim byd amdanom ni hebddon ni"** – Pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc a chynrychioli eu cyfranogwyr, ond heb roi gormod o faich ar bobl…

**"Rwyf wedi blino siarad â'r holl bobl hyn"** – Efallai y bydd cyfranogwyr yn dewis peidio ag ymgysylltu ar adegau penodol mewn cyfweliadau, neu ag ymchwil, gan eu bod wedi mynegi eu barn ac eisiau i'r newid gael ei wneud.

# Cwestiynau i'r siaradwyr

1. **Er bod cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn hollbwysig, bydd hefyd yn bwysig osgoi gorlwytho ymhlith y grŵp hwn – sut y gellid llywio hynny?**

   **Dr Eleanor Ott:** Mae'n bwysig anrhydeddu dymuniadau'r rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, hyd yn oed os yw hynny'n golygu peidio â'u cynnwys, a gall data gweinyddol helpu i roi cipolwg ar ganlyniadau, ond ni fydd hynny'n adlewyrchu profiadau. Mae moeseg a pharch yn bwysig, yn ogystal â chynnwys grŵp cynghori. Mae amrywiaeth enfawr i'r grŵp yn y cynllun peilot: mae'n bwysig cynnwys amrywiaeth o bobl.

   **Hannah Webster:** Gan weithio gyda chynghorwyr ifanc ar waith diogelwch economaidd, gwnaethant ymuno ar y dechrau. Dechreuodd pobl ifanc osod yr agenda, ac mae pŵer yn trosglwyddo i'w dwylo. Mae'n fuddsoddiad o amser ac ymddiriedaeth, ac ni ellir ei wneud yn gyflym, ond rydm wedi gallu symud gyda'r grŵp i'w helpu i arwain eu hymchwil eu hunain.

2. **Gan fynd yn ôl at yr ymchwil o gyd-destun rhyngwladol, sut y gallem feddwl am y berthynas rhwng sut y gwariwyd yr arian a'r galluedd sydd ganddynt yn eu bywyd?**

   **Dr Miriam Laker-Oketta:** Mewn hap-dreialon rheoli yn Liberia a Malawi, ceisiodd GiveDirectly ddeall effeithiau deinamig trosglwyddiadau arian parod, gan gynnal arolwg ffôn i ddeall sut roedd trosglwyddiadau arian parod yn effeithio ar fywydau cyfranogwyr. Yn yr Unol Daleithiau, mae prosiect wedi'i sefydlu i ddeall profiadau bywyd y rhai sy'n cael incwm sylfaenol, gan ofyn i gyfranogwyr am eu bywydau a'u nodau. Mae'n bwysig mesur canlyniadau yn dibynnu ar yr hyn sy'n bwysig i'r derbynwyr. Mae canfyddiadau rhagarweiniol yr astudiaethau hyn yn edrych yn hynod gadarnhaol.

3. **Roedd yn ddiddorol clywed am dderbynwyr yn Kenya yn cronni arian i ariannu athro cyn-ysgol newydd. O ymchwil sydd eisoes yn bodoli, a allai pobl ifanc yng Nghymru ddefnyddio arian fel hyn?**

**Dr Eleanor Ott:** Mae rhwydweithiau presennol o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal neu bobl ifanc sy'n pontio o fod mewn gofal. Efallai y byddant yn dod at ei gilydd i rentu llety, er enghraifft, neu gefnogi ei gilydd yn fwy cyffredinol.

**Dr Miriam Laker-Oketta:** Mae pobl sy'n cael trosglwyddiadau arian parod yn awyddus i fenthyg arian i'w gilydd ar gyfradd llog fach, gan wybod y byddant yn cael mwy o arian yn y dyfodol; yn aml mae'n dod yn ffynhonnell incwm iddynt.

# Trafodaeth

# Cwestiwn trafodaeth

Rhannwyd y mynychwyr yn grwpiau bach i drafod un cwestiwn allweddol:

**Sut gall ymchwil a'r gymuned ymchwil gefnogi llwyddiant y cynllun peilot a'i werthusiad orau?**

Roedd y drafodaeth yn ymwneud â thri phrif faes pwnc:

**Gwneud y gorau o'r cynllun peilot a'i werthusiad**

**Cyflogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**

**Galluogi effaith yn y dyfodol**

# Gwneud y gorau o'r cynllun peilot a'i werthusiad

**Roedd y thema hon yn ymwneud yn uniongyrchol â nodweddion y cynllun peilot a'r gwerthusiad, gan gynnwys sut y diffiniwyd canlyniadau, newidiadau y gellid eu gwneud, a'r system y mae'r cynllun peilot yn gweithredu ynddi.**

Trafododd y mynychwyr y pethau canlynol:

- **Beth fydd yr effaith ar y bobl yr effeithir arnynt gan y cynllun peilot yn ein barn ni?** A yw hyn yn cael ei ddiffinio fel cyfranogiad yn y farchnad lafur, llesiant ehangach, neu rywbeth arall? A oes cyfleoedd i werthuso canlyniadau ychwanegol (fel y defnydd o fanciau bwyd), yn enwedig os yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot yn nodi eu bod yn bwysig?
- **Dylai'r gwerthusiad fod yn ddolen adborth ynghylch sut y caiff y cynllun peilot ei gynnal.** Mae rhai newidiadau wedi'u gwneud eisoes, gan gynnwys darparu'r cymorth ychwanegol, a chynnig yr opsiwn ar gyfer taliadau bob pythefnos – daeth yr awgrymiadau hyn gan bobl ifanc a'u cynghorwyr. Os oes pethau y dywed pobl ifanc nad ydynt yn gweithio, cânt eu haddasu, ar yr amod nad ydynt yn effeithio ar bedair egwyddor dyluniad y cynllun peilot.
- **Mae'r cynllun peilot yn annhebygol o fod yn "fwled arian" ac mae'n un ymyriad mewn system ehangach o bolisïau sydd â'r nod o gefnogi'r grŵp hwn, gan gynnwys y rhai a ddarparwyd yn ychwanegol at y cynllun peilot.** Efallai mai'r mathau hyn o gymorth sydd hefyd yn cyfrannu at ganlyniadau ehangach. Beth yw'r ysgogwyr eraill a allai olygu nad yw'r polisi yn cael yr effaith a ddymunir?
- **Beth allai egluro gwahaniaethau o ran profiad y polisi?** Mae'r grŵp o dderbynwyr yn dra heterogenaidd – sut y gellid ystyried a gwerthuso gwahanol safbwyntiau a phrofiadau is-grwpiau? A all y gwerthusiad ystyried gwahaniaethau daearyddol o ran sut yr effeithir ar gyfranogwyr, e.e. gwahaniaethau trefol/gwledig?
- **Efallai y bydd lle ychwanegol ar gyfer ymchwil ethnograffig a/neu gyfranogol greadigol ar y cynllun peilot.** Gallai hyn helpu i ddatgelu sut y gall ymddygiadau cyfranogwyr newid (neu aros yr un fath) trwy'r cynllun peilot, nid dim ond yr hyn a ddywedant am eu profiad, a gallai ymchwilwyr cymheiriaid helpu i ddatgelu mewnwelediadau dyfnach yn ogystal ag 'uwchsgilio' cyfranogwyr.

# Cyflogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**Roedd y thema hon yn mynd i'r afael â ffyrdd y gall pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ymwneud yn foesegol ac yn ystyrlon ag ymchwil sy'n ymwneud â'r cynllun peilot.**

Trafododd y mynychwyr y pethau canlynol:

- **Y diffyg tystiolaeth ar sut beth yw dull effeithiol o gefnogi pobl sy'n gadael gofal, a sut y gallai hyn effeithio ar benderfyniadau yn y cynllun peilot a'r gwerthusiad**. Mae'n debygol y bydd mewnbwn gan y rhai sy'n ymwneud â'r cynllun peilot yn ddefnyddiol yn y camau allweddol o wneud penderfyniadau.
- **Sicrhau cyfranogiad ystyrlon a moesegol pobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal a sut i sicrhau bod cyfranogiad yn gymesur ac yn briodol er mwyn osgoi gorlwytho.** Mae cryn amrywiaeth o fewn y grŵp o ran profiad gofal, hyd yn oed cyn ystyried nodweddion eraill, a gall fod yn heriol cydbwyso maint a chynrychiolaeth o fewn y grŵp ansoddol.
- **Sut mae'n bwysig adeiladu'r berthynas iawn gyda phobl ifanc, ac ystyried yn ofalus ddulliau o ymgysylltu â nhw.** Gall sicrhau bod y rhain yn briodol ac yn hygyrch i'r bobl ifanc helpu i osgoi blinder ymchwil. Ystyriwyd bod defnyddio'r deunyddiau a gynhyrchwyd ar y cyd (fel arolwg Coram Voice yn y gwerthusiad) yn hanfodol – mae newidiadau hefyd wedi'u gwneud i wneud yr arolwg yn ddewisol ac yn ychwanegol at y broses gofrestru i osgoi gorlwytho.
- **Gall ymchwil greadigol a chyfranogol gynnig cyfle i ymgysylltu'n effeithiol â chyfranogwyr yn yr ymchwil a rhoi sgiliau iddynt drwy'r broses.**

# Galluogi effaith yn y dyfodol

**Roedd y thema hon yn mynd i'r afael â ffyrdd y gall y cynllun peilot gyfrannu at y dystiolaeth bresennol sy'n ymwneud â chynlluniau incwm sylfaenol (gan gynnwys incwm sylfaenol cyffredinol) a chymorth i bobl sy'n gadael gofal.**

Trafododd y mynychwyr y pethau canlynol:

- **Trosglwyddadwyedd y cynllun peilot i'r ddadl ehangach ar incwm sylfaenol cyffredinol.** Er bod gan y cynllun peilot rai nodweddion cyffredin, gall fod yn anodd ynysu'r rhain a'u trosglwyddo i incwm sylfaenol cyffredinol. Yr hyn y gall ei wneud o bosibl yw darparu gwybodaeth am yr effaith ar garfan benodol, dros gyfnodau byrrach a thymor hwy, gan ddechrau sgyrsiau a all arwain at drafodaethau ehangach am incwm sylfaenol cyffredinol.
- **Gall sicrhau bod y dystiolaeth a grëir yn ychwanegu at yr hyn sy'n bodoli eisoes.** Mae amrywiaeth o brosiectau tebyg yn digwydd mewn mannau eraill ar incwm sylfaenol, ac mae diffyg offer neu ganlyniadau yn gyffredin. Byddai'n werthfawr pe gallai'r data a gynhyrchir gan y cynllun peilot fod yn hygyrch ac yn ddefnyddiol ar gyfer cynhyrchu corff ehangach o dystiolaeth. Mae cynlluniau peilot eraill hefyd wedi bod yn destun adolygiadau beirniadol sylweddol gan gymheiriaid, tra gallai ffocws gael ei gyfeirio'n well at roi canlyniadau'r cynllun peilot yn eu cyd-destun, ac offer a all helpu i lywio arferion.
- **Pwysigrwydd allbynnau hygyrch ac adeiladu etifeddiaeth.** Mae cynlluniau peilot eraill wedi colli tyniant yn gyflym ar ôl eu cwblhau ac wedi cael trafferth symud ymlaen: gall sicrhau ymgysylltiad parhaus gan gymuned ymchwil ac ymarferwyr eang sicrhau bod y prosiect yn creu effaith: gallai seminarau neu gynadleddau rhagweithiol trwy gydol y cynllun peilot helpu i gynnal diddordeb. Bydd allbynnau hygyrch i'r cyhoedd hefyd yn bwysig, gan fod canlyniadau o gynlluniau peilot rhyngwladol yn aml yn cael eu diystyru fel rhai nad ydynt yn drosglwyddadwy i gyd-destun y DU, gan leihau diddordeb y cyhoedd. Mae'r peilot hwn yn cynnig cyfle i gynnwys y cyhoedd yng Nghymru a'r DU yn y drafodaeth ar gynlluniau incwm sylfaenol.

# Myfyrdodau

Yr Athro Guy Standing, SOAS, Prifysgol Llundain

# Recordiad : Prof. Guy Standing

*(Cliciwch ar y darlun i wylio'r cyflwyniad ar YouTube)*



@WCfPP

# Myfyrdodau: Yr Athro Guy Standing

**Cynigodd Yr Athro Guy Standing ei sylwadau ar y gynhadledd a beth wnaethom glywed yn ystod y sesiwn**

Mae incwm sylfaenol yn aml yn cael ei argymell fel mater o gyfiawnder cyffredin: rhoi sicrwydd sylfaenol i bawb, a gwella rhyddid trwy liniaru ansicrwydd. Rydym bellach yn byw mewn cyfnod o ansicrwydd cronig a diffyg gwytnwch: nid ydym yn gwybod pwy sy'n agored i niwed, rydym i gyd yn agored i niwed.

Mae tystiolaeth o gynlluniau peilot ac arbrofion incwm sylfaenol yn darparu'r “ffrwythau crog isel” – gan asesu'r damcaniaethau ynghylch effaith incwm sylfaenol a'r hyn sydd ei angen i'w wneud yn gymharol lwyddiannus.

Mae cynlluniau peilot cymunedau cyfan yn arwain at effeithiau lluosydd cryf, gyda mwy o incwm yn cael ei gynhyrchu yn y gymuned na'r arian a wariwyd ar y cynllun peilot. Mae'n bwysig cydnabod dynameg gymunedol incwm sylfaenol: cydweithredu o fewn cymunedau dros gronni a gwario adnoddau newydd er lles pawb. Mae llawer o gynlluniau peilot ond yn dewis grwpiau penodol, ac ni welir y manteision hyn.

Mae'n hanfodol bod derbynwyr cynlluniau peilot incwm sylfaenol yn ddienw, heb roi sylw yn y cyfryngau i'r rhai sy'n ei dderbyn, er mwyn sicrhau hygrededd. Mae preifatrwydd yn hanfodol ar gyfer hygrededd ymchwil ar incwm sylfaenol.

Mae'n bwysig sicrhau bod damcaniaethau'n cael eu gwneud yn glir, gan gynnwys newidynnau rheoli ac edrych ar ganlyniadau blaenorol, er mwyn sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu.

# Prof. Guy Standing: Canfyddiadau o gynlluniau peilot incwm sylfaenol blaenorol

Canfyddiadau o gynlluniau peilot ac arbrofion incwm sylfaenol blaenorol:

**Iechyd meddwl**

- Llai o straen meddwl, gan arwain at lai o salwch meddwl a llai o forbidrwydd

**Iechyd**

- Llai o achosion o salwch
- Defnydd mwy a mwy effeithiol o feddyginiaethau – yn fwy tebygol o gwblhau triniaeth
- Llai o ymweliadau ag ysbytai a chlinigau, gyda goblygiadau i wariant ar iechyd y cyhoedd
- Disgwyliad oes uwch a disgwyliad oes iach

**Addysg**

- Gwell presenoldeb a pherfformiad yn yr ysgol, gan gynnwys ymrestru mewn dysgu gydol oes

**Gwaith**

- Cynnydd yn y gwaith, y tu hwnt i gyfranogiad y gweithlu
- Arallgyfeirio gwaith: gwahanol fathau a ffynonellau lluosog

**Perthnasoedd**

- Effaith ryddfreinio: gall pobl symud allan o berthnasoedd camdriniol, gan eu bod yn llai dibynnol yn ariannol ar eu partner

# Cwestiynau i'r Athro Guy Standing

1. **Mae'r "baich ymchwil" ar y grŵp sy'n derbyn y cynllun peilot yn thema a drafodwyd drwy gydol y sesiwn – sut allwn ni gael y cydbwysedd rhwng cyfranogiad derbynwyr a data gweinyddol?**

   Mae'n bwysig bod â meddwl agored ynghylch faint y bydd y baich ymchwil yn effeithio ar gyfranogwyr; os caiff ei wneud yn y ffyrdd cywir, bydd pobl o amrywiaeth o gefndiroedd yn gallu siarad â holwr sy'n cydymdeimlo â'u realiti o dderbyn y cynllun.

2. **Gwnaethoch sôn bod cynlluniau peilot ar gyfer y gymuned gyfan yn cael effeithiau lluosydd cryf – beth yw manteision dull gweithredu ar lefel gymunedol?**

   Mae cynlluniau cymunedol yn arwain at gyfreithloni'r broses, ac ymreolaeth i'r rheini yn y gymuned wneud yr hyn yr hoffent ei wneud gyda'u hincwm, gan gynnwys ei roi yn ôl i'r gymuned. Mae trosedd yn lleihau os yw'r gymuned gyfan yn derbyn yr incwm sylfaenol. Os yw pawb yn y gymuned yn cael incwm sylfaenol, mae cynnydd mewn gwariant yn arwain at fwy o fuddsoddiad, ac yna incwm uwch. Mae effeithiau lluosydd yn bwysig iawn wrth ystyried costeffeithiolrwydd y cynllun, a gall manteision posibl y cynllun arwain at leihad mewn gwariant mewn meysydd eraill.

# Adnoddau

# Adnoddau y seinyddion

Cyn ac yn ystod y digwyddiad, gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol roi gwybod i ni am adnoddau ac allbynnau sy'n gysylltiedig â chynlluniau peilot incwm sylfaenol eraill neu gymorth i bobl sy'n gadael gofal. Cawsom 26 o ymatebion i holiadur yr arolwg cyn y digwyddiad a oedd yn tynnu sylw at gynlluniau incwm sylfaenol gweithredol eraill a rhai wedi'u cwblhau, yn ogystal ag adnoddau defnyddiol eraill. Soniodd y mynychwyr hefyd am nifer o adnoddau defnyddiol yn y blwch sgwrsio trwy gydol y digwyddiad.

Llywodraeth Cymru: Cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal: trosolwg o'r cynllun

**Speakers' resources:**

- Marmot, M., et al.: Fair Society, Healthy Lives (The Marmot Review)
- Gwerthusiad Incwm Sylfaenol Cymru (CASCADE)
- Banerjee, A., et al.: Effects of a Universal Basic Income during the pandemic (Kenya)
- McIntosh, C., and Zeitlin, A.: Using Household Grants to Benchmark the Cost Effectiveness of a USAID Workforce Readiness Program (Rwanda)
- FSD Africa: Youth Enterprise Grants for the Informal Economy (Kenya)
- Aggarwal, S., et al.: The Dynamic Effects of Cash Transfers: Evidence from Rural Liberia and Malawi
- The RSA: The cost of independence: young people's economic security.
- The RSA: Age of insecurity
- The RSA: Challenging the mental health crisis
- Shlonsky, A., et al., Systematic review and meta-analysis: What works for young people leaving the out-of-home care system?
- What Works for Children's Social Care: Systematic Review: Experiences With Mental Health Provision For Care-experienced Young People In The UK
- Standing, G., Basic Income: And How We Can Make It Happen
- Standing, G. The Precariat: The New Dangerous Class

# Cynllun Incwm Sylfaenol eraill

Cyhoeddiadau perthynasol i fentrau cynllun incwm syflaenol

| Mentergarwch | Lleoliad | Amserlen | Dolenni |
|---|---|---|---|
| **HudsonUP UBI Pilot** | Hudson, Efrog Newydd | Gweithredol: 2020-2025 | Hudson Basic Income Pilot: Year One Report |
| **Catalonia UBI Pilot** | Catalwnia | Gweithredol: 2023-2024 | Draft proposal for the design of the Catalonia pilot |
| **WorkFree** | Hyderabad, India | Gweithredol: 2022-23 | The WorkFREE project |
| **Madhya Pradesh Unconditional Cash Transfers Project (MPUCT)** | Madhya Pradesh, India | Wedi'i gwblhau: 2011-2014 | Piloting Basic Income Transfers in Madhya Pradesh, India |
| **Ontario Basic Income Pilot** | Ontario, Canada | Wedi'i gwblhau: 2018-2019 | The Impacts of the Ontario Basic Income Pilot: A Comparative Analysis |
| | | | The Experiences of Employed and Unemployed Ontario Basic Income Recipients |
| | | | Southern Ontario's Basic Income Experience |
| **Leeds Cash First Pilot** | Leeds, UK | Wedi'i gwblhau: 2021-2022 | Cash First Literature Review |
| | | | Evaluation of the Leeds City Council Cash Grant Pilot programme |

@WCfPP

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Adnoddau eraill

- Review of basic income experiments in OECD countries
- Special issue on the policy impact of European basic income experiments
- Preventing homelessness in care experienced individuals
- Millennium Cohort Study
- Systematic scoping review of studies of basic income-like interventions
- Young Foundation evaluation of B-MINCOME in Barcelona
- Ongoing results from the Changing Cost of Living Survey in the UK and France
- Assessing the Feasibility of Citizens' Basic Income Pilots in Scotland
- The RSA: A Basic Income for Scotland
- Exploring the practicalities of a basic income pilot

# Bywgraffiadau siaradwyr

# Bywgraffiad y siaradwr: Yr Athro Syr Michael Marmot

Mae'r **Athro Syr Michael Marmot** wedi bod yn Athro Epidemioleg yng Ngholeg Brifysgol Llundain ers 1985, ac ef yw Cyfarwyddwr Sefydliad Tegwch Iechyd (Institute of Health Equity) Coleg Prifysgol Llundain. Ef yw awdur The Health Gap: the challenge of an unequal world (Bloomsbury: 2015) a Status Syndrome (Bloomsbury: 2004).

Yr Athro Marmot yw Cynghorydd Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd, ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd, yn Is-adran Poblogaethau Iachach Sefydliad Iechyd y Byd (sef is-adran newydd), Athro Gwadd Nodedig ym Mhrifysgol Tsieineaidd Hong Kong (2019–), a chyd-Gyfarwyddwr Sefydliad Tegwch Iechyd Prifysgol Tsieineaidd Hong Kong. Ef yw derbynnydd Gwobr Arwr Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd, Cymrodoriaeth Harvard Lown (2014–2017), Gwobr y Tywysog Mahidol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd (2015), ac 19 doethuriaeth er anrhydedd. Mae Marmot wedi arwain grwpiau ymchwil ar anghydraddoldebau iechyd ers bron i 50 mlynedd. Bu'n gadeirydd ar Gomisiwn Sefydliad Iechyd y Byd ar Benderfynyddion Cymdeithasol Iechyd, sawl Comisiwn Rhanbarthol Sefydliad Iechyd y Byd, ac adolygiadau ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd i lywodraethau yn y DU.

Gwasanaethodd fel Llywydd Cymdeithas Feddygol Prydain yn 2010–2011, ac fel Llywydd Cymdeithas Feddygol y Byd yn 2015. Ef yw Llywydd Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint. Mae'n Gymrawd Academi'r Gwyddorau Meddygol ac yn Gymrawd er Anrhydedd Coleg Epidemioleg America a Chyfadran Iechyd y Cyhoedd; yn Gymrawd er Anrhydedd o'r Academi Brydeinig; a Cholegau Brenhinol Obstetreg a Gynaecoleg, Seiciatreg, Pediatreg ac Iechyd Plant, a Meddygon Teulu. Mae'n aelod etholedig o Academi Meddygaeth Genedlaethol UDA ac Academi Meddygaeth Brasil.

Roedd yn aelod o'r Comisiwn Brenhinol ar lygredd amgylcheddol am chwe blynedd ac yn 2000 fe'i hurddwyd yn farchog gan Ei Mawrhydi y Frenhines am wasanaethau i epidemioleg a dealltwriaeth anghydraddoldebau iechyd.

# Bywgraffiad y siaradwr: Yr Athro Guy Standing

Mae'r **Athro Guy Standing** yn gyd-sylfaenydd, ac ar hyn o bryd yn gyd-lywydd, Rhwydwaith Incwm y Sylfaenol y Ddaear. Mae wedi cynllunio cynlluniau peilot incwm sylfaenol mewn sawl gwlad, ac wedi ysgrifennu llawer o erthyglau a llyfrau ar incwm sylfaenol, gan gynnwys un ar gynlluniau peilot ar raddfa fawr yn India, yn ogystal â Basic Income: And how we can make it happen (Pelican) a Battling Eight Giants (Bloomsbury), yr olaf yn deillio o adroddiad i Ganghellor yr Wrthblaid ar gynllun peilot arfaethedig yn y DU. Rhoddodd gyngor ar beilot incwm sylfaenol y Ffindir, a chynlluniau peilot yng Nghaliffornia, Ontario a Lloegr. Yn ddiweddar, mae wedi bod yn cynghori arlywyddiaeth Catalwnia ar gynllun peilot incwm sylfaenol arfaethedig ac mae'n cynghori Rhaglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gynllun peilot yn Nepal. Ei lyfr diweddaraf yw The Blue Commons: Rescuing the Economy of the Sea. Mae'n cynnwys sail resymegol dros incwm sylfaenol, yn seiliedig ar ystyried bod hawliau cyffredin yn perthyn i bob un ohonom, ac felly'n cyfiawnhau difidend ar yr hawliau hyn yn seiliedig ar ardollau ar y rhai sy'n cael budd ariannol o'u cymryd.

# Bywgraffiad y siaradwr: Adam Jones

**Adam Jones** yw Uwch-swyddog Polisi – Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol, Llywodraeth Cymru, swydd y mae wedi'i dal ers mis Chwefror 2022.

Mae gan Adam BA (Anrh) mewn Gwleidyddiaeth o Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, ac MScEcon Gwleidyddiaeth a Pholisïau Cyhoeddus o Brifysgol Caerdydd, ac ar hyn o bryd mae ar secondiad i Lywodraeth Cymru o Iechyd Cyhoeddus Cymru, lle bu'n gweithio rhwng Rhagfyr 2009 ac Ionawr 2022, yn ddiweddarach fel Uwch-swyddog Polisi.

Roedd ei adroddiad dylanwadol 2021 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Incwm Sylfaenol, Iechyd a Chymru yn gynnyrch diddordeb helaeth yn y pwnc, ac mae wedi cyflwyno ar y pwnc i amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys y Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol a Chyngres Incwm Sylfaenol y Byd.

Ar wahân i'w rôl yn llywio polisi incwm sylfaenol, mae Adam wedi gwneud gwaith polisi ar amrywiaeth o bynciau iechyd y cyhoedd, yn fwyaf nodedig iechyd rhywiol, HIV a pholisi iechyd y cyhoedd, megis cyd-arwain yr adolygiad annibynnol o iechyd rhywiol yng Nghymru a llywio gwaith polisi gweithredu proffylacsis cyn-gysylltiad ar gyfer atal HIV yng Nghymru.

# Bywgraffiad y siaradwr: Launa Anderson

Yn dilyn gradd BSc ac MSc mewn Seicoleg, mae **Launa Anderson** wedi gweithio fel Ymchwilydd Cymdeithasol y Llywodraeth yn Llywodraeth Cymru ers dros ugain mlynedd. Hi yw pennaeth y tîm Ymchwil Gymdeithasol yn yr Is-adran Cydraddoldeb, Tlodi a Thystiolaeth a Chefnogaeth Plant gyda chyfrifoldeb am gefnogi cydweithwyr polisi ar draws Cymunedau a Threchu Tlodi gyda'u gofynion ymchwil a gwerthuso. Mae ei thîm wedi arwain y gwaith o gwmpasu, dylunio, comisiynu a rheoli prosiect y gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru.

# Bywgraffiad y siaradwr: Yr Athro Sally Holland

Mae'r **Athro Sally Holland** yn Athro Gwaith Cymdeithasol. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd, hawliau plant, a chyfranogiad plant ac ieuenctid mewn ymchwil a llunio polisïau. Ei chanolfan ymchwil yw Canolfan Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), lle mae'n arwain ar gynnwys y cyhoedd a materion cyhoeddus. Rhwng 2015 a 2022, roedd yr Athro Holland yn Gomisiynydd Plant Cymru. Hi yw Cyfarwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ac ar hyn o bryd mae'n arwain y gwerthusiad o Gynllun Peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal, ochr yn ochr â David Westlake.

# Bywgraffiad y siaradwr: David Westlake

Mae **David Westlake** yn Uwch-gymrawd Ymchwil yn CASCADE, rhan o Brifysgol Caerdydd. Mae'n ymchwilio i waith cymdeithasol plant a theuluoedd, ac mae ei yrfa hyd yn hyn wedi cynnwys ystod eang o bynciau yn y maes hwn, ac yn ei gylch. Mae gwaith diweddar David wedi cynnwys gwerthuso ymyriadau cymhleth gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau. Ar hyn o bryd, mae'n arwain gwerthusiad o fenter bolisi gwerth £10 miliwn sy'n rhoi gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion, gan weithio gyda Chanolfan Ymchwil Treialon Caerdydd a Phrifysgol Rhydychen. Mae'r astudiaeth yn dreial hapsamplu rheolyddedig gyda gwerthusiadau prosesau ac economaidd, ac mae'n dilyn astudiaeth ddichonoldeb a gwblhawyd ganddo yn gynharach eleni ar yr un pwnc. Yn flaenorol, bu David yn arwain tîm ymchwil a oedd yn gweithio o fewn gwasanaeth amddiffyn plant, gyda'r cylch gorchwyl o ddarparu adborth gwerthusol ar arferion a llywio gwelliannau i wasanaethau.

# Bywgraffiad y siaradwr: Dr Miriam Laker-Oketta

Mae **Dr Miriam Laker-Oketta** yn Gyfarwyddwr Ymchwil Byd-eang yn GiveDirectly ac yn Uwch-wyddonydd Ymchwil ac Epidemiolegydd gyda bron i ddau ddegawd o brofiad yn cynnal ymchwil. Ymhlith ei phrofiad helaeth, mae'n darparu goruchwyliaeth sefydliadol ar gyfer gwerthusiad trwyadl, arbrofol o effeithiau trosglwyddiadau arian parod diamod, ac ymhlith y rhain mae'r treial hapsamplu rheolyddedig mwyaf erioed ar gyfer incwm sylfaenol cyffredinol sy'n mynd rhagddo yn Kenya. Ar hyn o bryd, mae'n goruchwylio mwy na 12 o dreialon hapsamplu rheolyddedig GiveDirectly gydag ymchwilwyr blaenllaw yn y maes. Mae hi hefyd yn arwain gweithgareddau monitro a gwerthuso'r sefydliad ac yn cefnogi ymdrechion codi arian.

# Speaker biography: Hannah Webster

**Hannah Webster** yw Pennaeth Ymchwil yr RSA a chyn hynny bu'n cyd-arwain rhaglen Pobl a Lleoedd (People and Place) y sefydliad. Mae hi'n ymchwilydd meintiol, ansoddol a chyfranogol profiadol gyda ffocws ar sicrwydd economaidd, lles, tai, ac eiriolaeth pobl ifanc yn ei gwaith. Yn 2022, roedd Hannah yn rhan o bartneriaeth a arweiniwyd gan Brifysgol Northumbria yn archwilio effeithiau incwm sylfaenol cyffredinol ar iechyd a lles, y bu ei thîm yn arwain yr ymchwiliad ansoddol ar ei gyfer.

# Bywgraffiad y siaradwr: Dr Eleanor Ott

Mae **Dr Eleanor Ott** yn Uwch-gynghorydd yn y Ganolfan Tystiolaeth a Gweithredu. Mae hi wedi arwain ymchwil i wella bywydau plant a theuluoedd sy'n wynebu adfyd ar draws y byd academaidd, y llywodraeth, a sefydliadau dielw. Mae hi hefyd yn fethodolegydd ymchwil sy'n canolbwyntio ar synthesis tystiolaeth ac adolygiadau systematig, ymchwil dulliau cymysg, a gwerthusiadau effaith.

Cyn hynny, bu Eleanor yn rheoli ymchwil, cyfnewid gwybodaeth, gwerthusiadau effaith, ac adolygiadau systematig o ofal cymdeithasol plant yng Nghanolfan Rees ym Mhrifysgol Rhydychen ac yn arwain y Rhaglen Tystiolaeth Ddyngarol yn Oxfam. Mae ganddi ddoethuriaeth o'r Ganolfan Ymyrraeth sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth ym Mhrifysgol Rhydychen, lle bu'n astudio fel Ysgolhaig Rhodes. Mae gan Dr Ott hefyd MSc mewn Astudiaethau Ffoaduriaid ac Ymfudo Gorfodol o Brifysgol Rhydychen. Mae Eleanor wedi bod yn ymgynghorydd i Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig a chyn hynny bu'n gweithio fel dadansoddwr ymchwil a Chymrawd Truman-Albright yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Dynol yr Unol Daleithiau, gan wella ymchwil ar blant a theuluoedd.

Yn y Ganolfan Ymyrraeth sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, mae Eleanor yn gyfrifol am bortffolio o brosiectau gwerthuso, ymchwil a synthesis tystiolaeth, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio gwella gwasanaethau a bywydau plant â gweithiwr cymdeithasol a phlant mudol sydd wedi'u gwahanu. Mae hi hefyd yn ofalwr maeth.

**Wales Centre**
**for Public Policy**
**Canolfan Polisi**
**Cyhoeddus Cymru**

@WCfPP

**www.wcpp.org.uk**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff, CF24 4HQ
Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ